COFNODION CYFARFOD
O BWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI
23ain O FEHEFIN 2010 AM 5.00PM
SWYDDFA MENTER LLAMBED, LLANBEDR PS

YN BRESENNOL
CYNGOR TREF LLAMBED: Cyng. Maer (Cadeirydd) Rob Phillips;
Selwyn Walters; Eleri Thomas – Clerc, Cyngor Tref Llambed.

CYNGOR SIR CEREDIGION
Cyng Hag Harris;
Cyng Ivor Williams.

MUDIAD MYDTARA
Lizzie James.

HEFYD YN BRESENNOL
Mr Simon Firth Cycle-Mart;
Danny James; Gethin Bound & Sean Knowles.

1. CROESO'R CADEIRYDD
Croesawodd y Maer Rob Phillips bawb i'r Cyfarfod.

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Derek Wilson a'r Cyng Chris Thomas.

3. CYFLWYNIAD
Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr Simon Firth Cycle-Mart, Cilcennin, ynglŷn â'r posibilrwydd o osod mewn lle Trac-Baw'n y cae. Byddai'n golygu gwaith pythefnos gan ddefnyddio palwr-bach. Ni feddylid y byddai angen gwariant uchel i ddod â'r trac i fodolaeth. Derbyniwyd mewnbwm hefyd gan 3 o ieuenctid yr ardal sef Danny (James); Gethin (Bound) and Sean (Knowles), a ddangosodd brwdfrydedd ar gyfer y prosiect.

Penderfyniad
Y Maer i ymweld â'r Trac Baw yng Nghilcennin i geisio syniadau pellach.

4. DATGELU BUDDIANNAU PESONOL: Dim.

5. COFNODION CYFARFOD 7/04/2010
Cytunwyd i gofnodion y cyfarfod hwn fel cofnod cywir. Fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

6. MATERION YN CODI

6.1 Y FFENS: Mae'r gwaith o osod y ffens mewn lle bron â'i gwblhau gan Mr Kevin Jones a Mr Emyr Jones, Teify Forge Cyf. Bydd angen swm o £500 yn ychwanegol i'r dyfynbris cychwynnol. ***(Cyng. Derek Wilson/ Ivor Williams)***

6.2 TORRI'R GWAIR: i geisio dyfynbris - 4 toriad ar gyfer y cae ar gyfer canol Gorffennaf, Awst, Medi; Hydref – i gynnwys y pyg a'r darn o dir ger gwrbyn yr heol. ***(Clerc)***

6.3 SEDDAU

Prynwyd 2 sedd fetel newydd oddi wrth Mr Alex Page (£325 yr un heb TAW) ar gyfer y cae. Y mae 3 sedd a oedd weddill ym Mharc-yr-orsedd wedi eu hatgyweirio gan y Cyng. Chris Thomas ac wedi eu hadleoli'r cae. Yn ogystal lleolwyd 5 bwrdd-picnic yng nghornel y cae.

6.4 LLWYBRAU
Penderfyniad
Y Maer i drefnu cyfarfod safle â *Mr Tony Eames i ofyn tybed a fyddai'n bosibl iddo wella cyflwr y llwybr cerdded (lled 1 metr) ac i geisio caledi'r arwyneb.*

6.5 Y LES
Penderfyniad
Y Maer i ofyn i Gyngor Sir Ceredigion am estyniad o 7 blynedd ar gyfer y les.

6.6 CASGLU CERRIG AR Y CAE: *Lizzie James i gydlynu'r dasg, o bosibl.*

6.7 3 ARWYDD NEWYDD i'w harddangos ar y ffens. ***(Cllr D.Wilson)*** a bydd trefniadau'n cael eu gwneud i folltio'r gatiau mawrion. ***(Cyng. D. Wilson).*** Ni chaniateir cŵn yn y cae am resymau iechyd a diogelwch.

6.8 GWARIANT
Adroddwyd y gallai'r cae, ar ôl cyfnod 3 blynedd y les, gan ddechrau ar y 13eg Ebrill 2009, gael ei ddefnyddio at ddibenion eraill fel adeiladu. Ni feddylid y byddai'n ddoeth i wario cyllid enfawr ar y cae yn wyneb ansicrwydd defnydd dyfodol y cae. Dywedodd y Cyng. Walters, petai'n bosibl i ddangos bod angen amwynder yn y cyffiniau, byddai cais y Cyngor Tref, am estyniad yn y les yn cael mwy o bwysau.

7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fercher 21 Gorffennaf at 7pm Swyddfa Menter Llambed.

Daeth y Cyfarfod i ben am 6.35pm.

----------(arwyddwyd)

_____(dyddiad)